# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**10.45 y.b., DYDD LLUN, 21AIN MEDI, 2026**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni***

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 11 Medi 2026)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Gwilym Evans

Gwynfor Owen (Cadeirydd)

Elfed Williams

Gareth Williams (Eilydd)

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO 5 - 8

DRAGON SHOP LTD, 280 HIGH STREET, BANGOR, LL57 1UL

I ystyried y cais

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.
9. Swyddog Cyfreithiol y Cyngor i grynhoi gofynion y cais

**Atgoffir oll o'r pedwar egwyddor i'w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:**

1) **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2) **Diogelwch y Cyhoedd;**
3) **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4) **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS - BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **21 o Fedi 2021** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO - DRAGON SHOP LTD. 280 STRYD FAWR , BANGOR LL57 1UL** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH AMGYLCHEDD** |

## 1. CAIS A DDERBYNIWYD

1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer 280 Stryd Fawr , Bangor , LL57 1UL, a gyflwynwyd ar y 10fed o Awst 2026 gan gwmni Asiant Trwyddedu The Licensing Guys , ar ran yr ymgeisydd , Dragon Shop Cyf. Mae'r ymgeisydd yn gwmni cyfyngedig a gofrestrwyd ar y 21ain o Orffennaf 2026, ac fe enwir Mostafa Bayzidazar fel yr unig gyfarwyddwr.

1.2 Fe ddisgrifir yr eiddo ar y cais fel Siop Hwylus fydd yn gwerthu alcohol oddi ar yr eiddo. Bwriedir gwerthu alcohol yn y siop o 7 y bore tan 23:00 yr hwyr, 7 diwrnod yr wythnos. Noder fod yr eiddo eisoes yn gweithredu fel Siop Hwylus.

1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

1.4 Fe dderbyniwyd sylwadau ar y cais ac felly mae wedi ei gyfeirio i wrandawiad o'r Is Bwyllgor hwn am benderfyniad.

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn atodlen weithredol y cais yn cynnwys y canlynol:

- Hyfforddiant ar gyfer staff ar werthiant alcohol. Noder bydd hyfforddiant yn cynnwys sut wrthod gwerthiant i unigolion o dan ddylanwad, adnabod unigolion bregus a phryniant 'proxy'
- Prosesau gwirio oedran cynhwysfawr mewn lle gan gynnwys mabwysiadu a gweithredu polisi Her 25
- Mesurau mewn lle i sicrhau nad oes gwerthiant alcohol dros y rhyngrwyd i unigolion o dan 18.
- Cadw cofnodion gwrthod pryniant alcohol
- Cadw cofnodion digwyddiadau ar yr eiddo
- Cydweithio gyda'r Heddlu ac asiantaethau eraill drwy sicrhau fod y dogfennaeth perthnasol ar gael o ran cofrestr gwrthod, Polisïau a delweddau TCC
- Sicrhau cydymffurfiad gyda rheoliadau diogelwch ac deddfwriaethau sy'n berthnasol i redeg busnes cyfreithiol o'r fath sy'n berthnasol i eiddo trwyddedig
- Cynnal system TCC sydd yn gallu cadw delweddau clir mewn trefn am 31 diwrnod, gyda aelod o staff sydd yn gallu lawrlwytho delweddau ar gais gan yr Heddlu neu swyddog o'r Awdurdod Lleol
- Hyfforddiant staff ar ddefnyddio TCC
- Rheoli sŵn drwy annog cwsmeriaid i adael yn dawel a pheidio creu sŵn a all achosi niwsans i gymdogion.

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn rhan M y cais a welir yn yr atodiad .

## 3. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| **YMATEBION** | **SYLWADAU** |
|---|---|
| Heddlu Gogledd Cymru | Dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Tan ac Achub | Dim gwrthwynebiad |
| Aelod lleol | Gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd – Safonau Masnach | Gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd – Iechyd Amgylchedd | Gwrthwynebiad |
| Aelodau'r Cyhoedd/busnesau lleol | Gwrthwynebiad |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Gwrthwynebiad |

**3 Sylwadau Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd – Gwasanaeth Safonau Masnach**

3.1 Cyflwynwyd gwrthwynebiad ar sail tystiolaeth o drosedd ac anrhefn yn gysylltiedig a'r eiddo; ac yn ogystal yn gysylltiedig a'r Cwmni Dragon Shops Ltd sydd yn masnachu ar hyn o bryd fel siop manwerthu yn y lleoliad o dan yr enw 'Top Shop'

3.2 Cadarnhaodd y swyddog, fod Hysbysiad Cau wedi ei gyflwyno ar yr eiddo busnes yn 280 Stryd Fawr, Bangor, ar yr 26 o Chwefror 2026, yn unol a darpariaethau rhan 4 o'r Ddeddf Ymddygiad Gwrth – gymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014. Ar y pryd roedd y siop yn cael ei redeg gan gwmni City Mini Ltd, ac yn masnachu o dan yr enw City Mini Market / Top Shop.

3.3 Yn unol a'r drefn , fe amlygwyd tystiolaeth i'r Llys yn dilyn cwynion a dderbyniwyd am yr iddo gan y Cyhoedd, cudd-wybodaeth a dderbyniwyd ; tystiolaeth yn dilyn sawl prawf bryniant o sigaréts/tybaco anghyfreithlon, cipio ( seizure) eitemau ffug megis teganau ffug, fêps, sigaréts a thybaco. Fe gytunodd y Llys yn dilyn gwrandawiad ac ar sail y dystiolaeth i roi Rhybudd Cau ar yr eiddo (nid y Cwmni/busnes) a oedd yn weithredol am 3 mis tan yr 2il o Fehefin 2026.

3.4 Ar y 30 o Fehefin 2026, ar ôl i'r siop ail agor, derbyniodd swyddogion Safonau Masnach gwyn eto gan aelod o'r cyhoedd yn honni fod sigaréts a tybaco anghyfreithlon yn cael eu gwerthu ar yr eiddo unwaith eto.

3.5 Ar 11 Awst 2026 daeth Safonau Masnach yn ymwybodol o gais am drwydded eiddo newydd ar gyfer yr eiddo 280 Stryd Fawr, Bangor Gwynedd, LL57 1UL. Amlygodd y cais mai'r ymgeisydd oedd Dragon Shop Ltd, sydd wedi cofrestru ar Tŷ Cwmnïau ers 21 Gorffennaf 2026.

3.6 Yn dilyn hyn; fe ymchwiliwyd system cudd - gwybodaeth a data sydd yn weithredol gan gwasanaethau Safonau Masnach led – led y DU, ac fe ddarganfuwyd y canlynol

- Fod Cyfarwyddwr cwmni yr ymgeisydd – Dragon Shop Ltd. , Mr Mostafa Bayzidiazar yn gysylltiedig a siop arall yn 85 Drake Street Rochdale , OL16 1SD, a oedd hefyd yn destun gorchymyn cau. ( gweler gwybodaeth gyhoeddus o Dy'r Cwmnïau yn atodol) Ymddengys mai Mr Bayzidiazar oedd y tenant yn yr eiddo ar y pryd.
- Mae Mr Mostafa Bayzidiazar yn gyfarwyddwr ar gwmni arall, sef Cloud 9 Vape Shop Ltd. o'r un cyfeiriad yn Rochdale, ble mae ei Fab yn gysylltiedig â'r siop, gyda gwybodaeth yn ei gysylltu gyda gwerthiant tybaco anghyfreithlon honedig drwy siopau eraill tebyg.

3.7 Ers i'r cyfarwyddwr Mostafa Bayzidiazar sefydlu a chofrestru cwmni Dragon Shop Ltd sydd yn gweithredu fel busnes cyfredol o 280 Stryd Fawr , Bangor ; mae'r swyddog yn nodi nad oes unrhyw newid wedi bod yn nhrefniadau cytundeb tenantiaeth drwy'r Asiant sydd yn gosod yr eiddo, ac nid oes newid yn nhrefniadau banc o ran taliad am y rhent ar yr eiddo.

3.8 Ar 27 Awst 2026, derbyniodd Safonau Masnach wybodaeth yn honni fod yr siop 'Top Shop', 280 Stryd Fawr Bangor Gwynedd yn gwerthu tybaco anghyfreithlon.

3.9 Mae Safonau Masnach yn ymwybodol o dachdeg ar draws y Deyrnas Unedig, ble mae siopau sydd yn gysylltiedig a gwerthiant nwyddau anghyfreithlon ar y Stryd Fawr yn agor a chau cwmnïau cyfyngedig yn rheolaidd, a newid cyfarwyddwyr er mwyn ceisio osgoi camau gorfodaeth. Mae Safonau Masnach yn bryderus ar sail y wybodaeth sydd yn cael ei adrodd, mai dyma sydd yn digwydd gyda'r siop yma, a bod yr eiddo yn dal yn destun ymddygiad gwrth gymdeithasol.

4. **Sylwadau Gwarchod y Cyhoedd - Iechyd Amgylchedd**

4.1 Derbyniwyd gwrthwynebiad ar sail yr amcan trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn, yn benodol oherwydd fod y siop wedi ei chau i lawr yn gynharach y flwyddyn hon gan swyddogion safonau masnach oherwydd gwerthiant o gynnyrch tybaco counterfeit.

**5. Sylwadau aelodau'r cyhoedd/busnesau lleol**

5.1 Derbyniwyd gwrthwynebiad mewn perthynas a'r pedwar amcan trwyddedu. Mae'r gwrthwynebydd yn nodi ei fod yn deall fod yr eiddo wedi bod yn destun camau gorfodaeth a arweiniodd at gau yr eiddo oherwydd gwerthiant anghyfreithlon o gynnyrch , gan gynnwys fêps a gwerthiant i unigolion o dan oed.

5.2 Mae'r ymatebydd yn mynd ymlaen i nodi fod hanes diffyg cydymffurfiaeth ar yr eiddo yn codi pryderon ynglŷn a gallu yr ymgeisydd i gydymffurfio ac i redeg a chynnal busnes trwyddedig yn yr eiddo.

5.3 Mae'n nodi ymhellach fod amrywiol bryderon cynyddol a difrifol ymysg y gymuned fod nwyddau/cynhyrchion , yn benodol cynhyrchion fêpio yn cael eu cynnig ar werth o'r eiddo i unigolion o dan yr oed cyfreithiol i brynu cynnyrch o'r fath. Mae'r ymholydd yn gwneud cais i'r awdurdod fod tystiolaeth o gwynion, prawf – brynu a gwybodaeth gudd a gwybodaeth gorfodaeth yn cael ei amlygu i aelodau'r Is Bwyllgor Trwyddedu.

5.4 Defnyddir y ddadl nad ydw hanes diffyg cydymffurfiaeth yr eiddo yn rhoi hyder yng ngallu yr ymgeisydd i gydymffurfio gyda'r cyfrifoldebau ehangach sydd yn gysylltiedig a gwerthu alcohol.

5.5 Noder y ffaith fod swyddogion diogelwch bwyd yn Cyngor wedi rhoi sgôr hylendid o 1 i 'r busnes yn ei archwiliad hylendid diweddaraf , ac nid yw hyn yn argoeli yn dda o ran gallu y busnes i gadw y cyhoedd yn ddiogel.

5.6 Noder fod y siop yn denu nifer helaeth o bobl ifanc , yn enwedig ar benwythnosau, ac fod yna risg y gall hanes diffyg cydymffurfiaeth ar yr eiddo ychwanegu at y risg i'r cyhoedd ac yn enwedig y risg o niwed i bobl ifanc. Fe ddatgenir pryder fod pobl ifanc yn bresennol o gwmpas y siop yn hwyr , ar adegau lle mae mwy o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn digwydd, ac y byddai hawl i werthu alcohol yn cynyddu'r broblem.

5.7 Nodai'r ymatebydd fod y siop yn agored yn hwyr iawn ar hyn o bryd, tan oddeutu 2 y bore yn aml. Nid yw y glir o'r cais sut mae'r ymgeisydd yn bwriadu atal gwerthiant alcohol ar ôl 11 yr hwyr os fydd y siop yn parhau i fod yn agored yn hwyr os fydd gwerthiant alcohol yn cael ei ganiatáu. Nid yw y cais yn nodi oriau agor hwyr fel sydd yn cael ei adrodd gan yr ymatebydd.

5.8 Prif bryder yr ymatebydd yw atal niwed i blant. Mae yn nodi fod llawer iawn yn y gymuned yn honni fod cynnyrch sydd gyda gwaharddiad oedran yn cael ei werthu ai gyflenwi i blant o'r siop. Petai trwydded yn cael ei ganiatáu, mae'r ymatebydd yn poeni y bydd potensial o niwed i blant yn cynyddu gyda oedolion yn ceisio prynu alcohol iddynt , neu yn cyflenwi alcohol yn uniongyrchol. Nid oes gan yr ymatebydd hyder yng ngallu y busnes i reoli y risgiau a nodir ac i gydymffurfio a'r gyfraith.

6. **Sylwadau aelodau lleol –**

6.1 Fe dderbyniwyd gwrthwynebiad gan y Cynghorydd lleol gan gyfeirio at adroddiad yn y Wasg yn mis Mawrth yn cadarnhau fod gwasanaeth Safonau Masnach y Cyngor wedi cael Gorchymyn Cau yn erbyn yr eiddo.

7. **Sylwadau gan Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

7.1 Derbyniwyd sylw gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Iechyd Cyhoeddus Cymru), sy'n gweithredu fel Awdurdod Cyfrifol. Mae'r sylw yn codi pryderon ynghylch effaith bosibl y cais ar amcanion trwyddedu atal troseddu ac anrhefn, diogelwch y cyhoedd, ac amddiffyn plant rhag niwed.

7.2 Cyfeirir at dystiolaeth leol o niwed sydd yn gysylltiedig ag alcohol yng Ngwynedd, lefelau yfed alcohol ymhlith pobl ifanc sydd yn uwch na'r cyfartaledd, pryderon ynghylch diogelwch cymunedol o fewn ardal ward Deiniol, a'r berthynas rhwng argaeledd alcohol a throseddau, anrhefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol.

7.3 Mae'r sylw hefyd yn nodi materion gorfodi blaenorol sydd yn ymwneud â'r safle ac yn gofyn i'r Is-bwyllgor ystyried goblygiadau ehangach y cais o ran llesiant, yn enwedig mewn perthynas ag unigolion bregus, plant a phobl ifanc, a diogelwch cymunedol.

**Mae'r sylw llawn ynghlwm er ystyriaeth yr Aelodau.**

**8. ARGYMHELLIAD**

**Yn unol a'r Deddf Drwyddedu 2003, argymhellir fod y Pwyllgor yn gwrthod y cais oherwydd hanes o drosedd ac anrhefn a pryderon sydd yn gysylltiedig a'r eiddo; ac yn gysylltiedig a chyfarwyddwr y cwmni sydd yn cyflwyno'r cais am drwydded.**